## Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith y CCYSAGauC (2020)

## Nominations for the WASACRE Executive Committee (2020)

Mae PUMP enwebaidau ar gyfer DAU swydd ar y Pwyllgor Gwaith.

There are FIVE nominations for TWO positions on the Executive Committee

1. **Phil Lord - CYSAG Sir Ddinbych**

Teimlaf fod gen i brofiad a gwybodaeth helaeth am AG yng Nghymru a fyddai'n fy ngalluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i bwyllgor gwaith CCYSAGauC. Wedi graddio mewn diwinyddiaeth, hyfforddais i ddysgu AG ar lefel uwchradd. Bûm yn arwain dwy adran AG lwyddiannus ac yna cefais swydd ymgynghorydd AG i dri Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Fel ymgynghorydd, rwyf wedi hyfforddi athrawon, creu adnoddau, monitro safonau a chefnogi tri CYSAG. Rwyf eisoes wedi bod yn aelod o bwyllgor gwaith CCYSAGauC am chwe blynedd a bum yn cadeirio'r corff o fis Medi 2015 am ddwy flwyddyn academaidd, a hynny ar adeg o derfysg mawr i AG yn wleidyddol ac yn addysgol.

**Phil Lord – Denbighshire SACRE**

I feel I have a wealth of experience and knowledge of RE in Wales that would enable me to provide a positive contribution to the WASACRE's executive. After gaining a theology degree I trained and taught RE at secondary level. I led two successful RE departments and then secured the position of RE adviser for three LAs in North Wales. As an adviser I trained teachers, created resources, monitored standards and supported three SACREs. I have been a previous member of WASACRE exec for six years and chaired the organisation from Sept 2015 for two academic years at a time of great turbulence for RE both politically and educationally.

2. **Cynghorydd Neeta Baicher – CYSAG Casnewydd**

**Enw**: Cynghorydd Neeta Singh Baicher YH, RSW (Casnewydd)

Fel Is Gadeirydd CYSAG ac aelod ers 1997, rwyf wedi gweithio'n galed i hybu ei egwyddorion gyda phob cymuned ffydd. Rwyf yn cyfrannu at HMS a gwasanaethau ysgolion, ac rwy'n fedrus mewn adeiladu cydlyniant cymunedol, cefnogaeth a gwaith grŵp. Mae gen i arddull cyfathrebu chwilfrydig ag agored.

Rwyf yn mynychu cyfarfodydd CCYSAGauC yn rheolaidd, wedi cymryd rhan ar radio lleol / cenedlaethol ac wedi cyflwyno mewn cynadleddau rhyng-ffydd.

Ar hyn o bryd rwy'n gadeirydd BASW Cymru ac ym 2013 cefais fy anrhydeddu â Gwobr Cyfraniad Oes i Waith Cymdeithasol.

**Councilor Neeta Baicher – Newport SACRE**

**Name**: Cllr Neeta Singh Baicher JP, RSW (Newport )

As Vice chair of SACRE and a member since 1997, I have promoted its principles actively with all faith communities. I contribute towards school INSET and assemblies, and I am very skilled in building community cohesion, support and group work. I have an inquiring and open communication style.

I regularly attend WASACRE meetings, have contributed on local / national radio and have presented at interfaith conferences.

I am currently the chair for BASW Cymru and in 2013 I was presented with a Life-time Achievement Award for Contribution to Social Work.

3. **John Meredith – CYSAG Sir Powys**

- Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol i Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu;
- Gwaith ar y cyd gyda'r Eglwys yng Nghymru a Llywodraeth Cymru ar faterion y cwricwlwm a'i ddatblygiad;
- Aelod o 3 CYSAG, cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd ac wedi rhoi cyflwyniadau;
- Aelod o Gyngor AG Cymru a Lloegr;
- Ysgolor Farmington: wedi ymchwilio i'r cwestiynau y mae plant yn eu gofyn mewn gwersi AG, sy'n ymwneud â dealltwriaeth grefyddol, ysbrydolrwydd a datblygu sgiliau meddwl/cwestiynu;
- Enillydd Gwobr Ddeimwnt Cymorth Cristnogol fel arloeswr ysgol;
- Trefnu digwyddiad Dysgu Proffesiynol; ac
- Yn athro ers dros 20 mlynedd, ac yn Gydlynydd/Arweinydd AG, yn datblygu gwersi, adnoddau, polisi a hyfforddiant AG.

**John Meredith – Powys SACRE**

- Diocesan Director of Education for the Diocese of Swansea and Brecon;
- Joint working with the Church in Wales and Welsh Government on curriculum matters and development;
- a member of 3 SACREs, taking an active part in meetings and have delivered presentations;
- a member of the RE Council for England and Wales;
- a Farmington scholar: investigated the questions children ask in RE lessons, relating to religious understanding, spirituality and the development of thinking/questioning skills;
- a Diamond Award winner for Christian Aid as a school's innovator;
- Professional Learning event's organiser; and
- a teacher for over 20 years, being RE Co-ordinator/Leader, developing RE lessons, resources, policy and training.

4. **Heather Hansen and Jennifer Harding-Richards – CYSAG Abertawe (Sylwer – mae hwn yn enwebiad i rannu swydd)**

**Heather Hansen**

Cymwysterau: MA, BD, TAR, FF

Fel Cristion o argyhoeddiad, rwyf yn ystyried mai dysgu Addysg Grefyddol yw fy ngalwad mewn bywyd. Rwyf yn bennaeth AG yn Ysgol Gatholig yr Esgob Vaughan yn Abertawe. Mae gen i ddwy swydd Prif Arholwr i CBAC. Mae datblygu Addysg Grefyddol ac Astudiaethau Crefyddol cadarn yn rhywbeth sydd wedi bod yn bwysig i mi erioed ac ar hyn o bryd rwy'n cynrychioli Undeb VOICE ar y CYSAG lleol yn Abertawe. Byddai'r cyfle i fod yn rhan o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn fy ngalluogi i weithio gydag eraill sy'n teimlo cyn gryfed â minnau am ddatblygiad Addysg Grefyddol.

**Jennifer Harding-Richards**

Cymwysterau: MA , BSc, TAR, Myfyriwr EdD.

Fel ymarferydd Astudiaethau Crefyddol, teimlaf innau hefyd mai dyma fy ngalwad mewn bywyd ac rwyf wrth fy modd â'r bywiogrwydd a'r egni sy'n cyd-fynd ag addysg AG yn y gymdeithas gyfoes. Ar hyn o bryd rwy'n bennaeth yr adran Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol yr Esgob Gore, ochr yn ochr â bod yn Ymgynghorydd AG i CYSAG Abertawe ac yn ymarferydd arweiniol AG i ERW. Rwy'n aelod o PYCAG, yn arholwr gyda CBAC ac yn addysgwr gydag Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocost. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu AG effeithiol ac ystyrlon a byddwn wrth fy modd yn cael y cyfle i fod yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC.

**Heather Hansen and Jennifer Harding-Richards – Swansea SACRE (N.B. this nomination is a job share)**

**Heather Hansen**

Qualifications: MA, BD, PGCE, FF

As a committed and practising Christian, I consider teaching Religious Studies to be my vocation in life. I am Head of RE at Bishop Vaughan Catholic School Swansea. I hold two Principal Examiner roles for the WJEC. I have always had a heart for the sound development of Religious Education and Religious Studies and currently represent the VOICE Union at my local SACRE in Swansea. The opportunity to be a part of the WASACRE Executive Committee would enable me to work with others who care as passionately as I do about the development of Religious Education.

**Jennifer Harding-Richards**

Qualifications: MA , BSc, PGCE, EdD student.

As a practitioner of RS, I too feel that this is my vocation in life and love the vibrancy and energy that accompanies the teaching of RS in contemporary society. I am currently the head of the RS department in Bishop Gore School, alongside RE Adviser to Swansea SACRE and lead practitioner for RE with ERW. I am a member of NAPfRE, an examiner with the WJEC and an educator with the Holocaust Education Trust. I am wholly committed to the development of effective and meaningful RS and would love the opportunity to be a representative on the WASACRE Executive Committee.

5. **Y Parchedig Ddr Tania ap Sion- CYSAG Wrecsam**

Rwyf yn arbenigwr addysg grefyddol ddwyieithog yn y sector Addysg Uwch (ar hyn o bryd yn Ddarllenydd Crefyddau, Dyniaethau ac Addysg). Rwyf wedi bod yn gweithio dros addysg grefyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ers dros 25 mlynedd, yn datblygu rhaglenni addysg grefyddol ar lefelau israddedig, ôl-raddedig ac ymchwil yn ogystal â chysylltu ymchwil ag ymarfer, a dechrau llawer o adnoddau cwricwlwm a noddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ganolog i lwyddiant y Cwricwlwm i Gymru mae'r heriau a'r potensial o ran darpariaeth datblygiad proffesiynol a bod adnoddau o safon ar gael i ysgolion ac athrawon. Rwyf wedi gwasanaethu am flynyddoedd ar y Pwyllgor Gwaith (fel aelod, Ysgrifennydd, Cadeirydd); cynigiaf fy ngwasanaeth eto.

**The Revd Dr Tania ap Sion- Wrexham SACRE**

I am a bilingual religious education specialist in the HE sector (currently Reader of Religions, Humanities and Education), who has worked for religious education nationally and internationally for over 25 years, developing religious education programmes at undergraduate, postgraduate and research levels as well as connecting research with practice, and originating many curriculum resources sponsored by the Welsh Government. Central to the success of the Curriculum for Wales are the challenges and potential within professional development provision and quality resourcing available to schools and teachers. I have served many years on the Executive (as member, Secretary, Chair); I offer myself again.